



POLISI CWYNION YR YSGOL **Ysgol Llandygai**

Pwrpas y weithdrefn hon yw er mwyn galluogi datrys cwynion a wneir yn erbyn y Corff Llywodraethol neu aelodau o staff yr ysgol, neu gwynion ynghylch materion mwy cyffredinol megis rheolaeth yr ysgol, ei chwricwlwm, gweinyddiad, polisiâu neu weithdrefnau. Mae'r Llywodraethwyr yn hyderus ei fod yn egluro i holl aelodau cymuned yr ysgol:-

- Egwyddorion y weithdrefn a phwy sy'n gyfrifol am gyflawni pob rhan.
- Y gweithdrefnau i'w dilyn.
- Graddfeydd amser i'w dilyn a sut caiff cwynion eu cofnodi a'u monitro.

Egwyddorion

Bwriedir i'r weithdrefn hon fod yn:-

- Deg .
- Y caiff ei defnyddio gyda chysondeb.
- Yn galluogi datrys cwynion cyn gynted ac mor effeithiol a bo modd.

Defnyddio gwybodaeth

Ym marn Corff Llywodraethol Ysgol Llandygai, dylid cadw cwynion yn gyfrinachol gyda dim ond yr achwynydd, y sawl y dygir y gŵyn yn ei erbyn, a'r rheini sydd yn ymwneud â'r archwiliad neu'n penderfynu ynghylch y gŵyn yn ymwybodol o'r manylion a chynnwys unrhyw ohebiaeth. Mae'r Llywodraethwyr yn credu bod gan unrhyw un y dygir cŵyn yn ei erbyn â'r hawl i wybod beth yw'r cyhuddiad yn ei erbyn ef/hi a'r canlyniad.

Trwy'r adeg, bydd yr ysgol yn ceisio hysbysu'r achwynydd a'r sawl y dygir y gŵyn yn ei erbyn ynghylch sut mae'r ymchwiliad yn mynd ymlaen ac unrhyw benderfyniad yn deillio o hynny.

Ni fydd yr ysgol yn ymchwilio i gwynion dienw. Pe bai unrhyw achwynydd dienw yn honni bod trosedd wedi ei chyflawni neu fod plentyn mewn perygl o niwed difrifol, bydd yr achwynydd yn cael ei gynghori i gysylltu â'r heddlu neu â Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd.

Honiad o Faterion Gweithgaredd Troseddol neu Amddiffyn Plant

Mae cyfeirio honiadau yn erbyn aelodau staff a all fod yn faterion y dylid delio â hwy o dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant, yn cael eu cwmpasu o dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol. Os yw'r honiad yn ymwneud â gweithgaredd troseddol honedig, dylai'r sawl sy'n delio â'r gŵyn ystyried prun ai i gyfeirio'r mater at yr heddlu ar ôl cael cyngor gan yr Awdurdod Addysg.

Gweithdrefn ar gyfer delio â chwynion

Dylid, yn y lle cyntaf, ceisio datrys pob cŵyn yn **anffurfiol**.

Delio â chwynion a wneir gan unigolion heblaw aelodau o'r staff

Yn y lle cyntaf, gellir lleisio cwynion naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig a dylid eu cyfeirio at y Pennaeth. Os ydynt yn gwynion ar lafar, dylai'r achwynydd gael y cyfle i gwrdd â'r pennaeth, os dyna yw'r dymuniad, gyda'r nôd o gael datrysiad o fewn deg diwrnod ysgol. Dylid cynghori'r aelod o'r staff y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn i gael cyngor gan gynrychiolydd ei undeb llafur/cymdeithas. Dylid hysbysu'r achwynydd o ganlyniad y gŵyn. Dylai'r pennaeth gadw cofnod, sy'n cynnwys enw'r achwynydd, dyddiad derbyn y gŵyn, disgrifiad cryno o'r gŵyn, y camau a gymerwyd i'w datrys ac unrhyw faterion i weithredu arnynt. Bydd copi yn cael ei roi ar gael i'r sawl y dygir y gŵyn yn ei erbyn.

Ble nad oes modd datrys y gŵyn ar y cam hwn neu y deil yr achwynydd yn anfodlon ynghylch y canlyniad, dylid ei hysbysu ef neu hi bod rhaid cyflwyno'r gŵyn yn ysgrifenedig a bod yr achwynydd yn derbyn copi o Weithdrefn Cwynion yr Ysgol gan y Pennaeth. Ar ôl derbyn y gŵyn, bydd y Pennaeth yn cydnabod hynny'n ysgrifenedig ac yn ceisio ymateb yn ffurfiol o fewn deg diwrnod ysgol. Pan nad oes modd gwneud hynny, hysbysir yr achwynydd a bydd yn derbyn amserlen ddiwygiedig ar gyfer datrys y gŵyn.

Mewn achosion ble mae'r achwynydd yn dal yn anfodlon neu ble gwneir cwynion ynghylch ymddygiad y Pennaeth, delir â'r cwynion hynny gan Gadeirydd y Corff Llywodraethol. Ym mhob achos, ystyrir mai yn erbyn y pennaeth y dygir y gŵyn.

Ar ôl ystyried y gŵyn, efallai bydd Cadeirydd y Llywodraethwyr yn penderfynu y gall ef/hi ddelio â'r mater heb gymorth, neu efallai bydd yn penderfynu galw cyfarfod o'r Pwyllgor Disgyblu a fydd yn gweithredu fel Pwyllgor Cwynion yr ysgol. Mewn achos o'r fath, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Clerc gydnabod y gŵyn o fewn pum diwrnod ysgol, a threfnu gwrandawriad ynghylch y gŵyn o fewn pymtheg diwrnod ysgol o dderbyn y gŵyn. Bydd hawl gan y Pennaeth a'r achwynydd fynychu a rhaid i'r ddwy ochr gyflwyno unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig y bwriedir ei gyflwyno i'r cyfarfod o leiaf bum diwrnod ysgol cyn dyddiad cynnal y gwrandawriad. Ni fydd y pwyllgor yn ystyried unrhyw ddogfennaeth a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwnnw.

Ble gwnaed y gŵyn gan ddisgybl, disgwylir y bydd ei rieni ef neu hi yn gwybod am y manylion ac yn gallu cyflwyno'r gŵyn yn ysgrifenedig ar ran y plentyn ar ôl cyrraedd cam ffurfiol y weithdrefn.

Pan fydd y pwyllgor wedi ystyried yr holl dystiolaeth, bydd yn ystyried ac yn dod i benderfyniad yn gyfrinachol. Os oes cynrychiolydd o'r AALL yn bresennol i roi cyngor, bydd ef neu hi yn gadael ar ôl rhoi'r cyngor hwnnw.

Bydd penderfyniad y pwyllgor yn cwmpasu:-

- Prun y penderfynir bod sail i'r gŵyn ai peidio.
- Unrhyw gam a gymerir gan y Corff Llywodraethol, Pennaeth ac/neu aelodau o'r staff yn dilyn y penderfyniad.
- Unrhyw argymhelliad am newidiadau i bolisiau neu weithdrefnau'r ysgol i'w hystyried gan y Pennaeth neu'r Corff Llywodraethol llawn fel y bernir yn briodol.

Dylai penderfyniad y pwyllgor gael ei anfon yn ysgrifenedig at yr achwynydd o fewn pum diwrnod ysgol. Bydd y llythyr at yr achwynydd yn egluro y cynhaliwyd ymchwiliad trylwyr i'r gŵyn ac na chynhelir ymchwiliad pellach.

Cwynion gan staff

Yn y lle cyntaf dylai aelodau'r staff sydd â chŵyn, geisio datrys y mater yn anffurfiol, os oes angen, gyda chymorth y Dirprwy Bennaeth. Mewn achos ble na ellir datrys trwy ddefnyddio dulliau anffurfiol neu ble gwneir y gŵyn yn erbyn y Dirprwy Bennaeth, dylid ei dwyn i sylw'r Pennaeth a fydd eto'n ceisio delio â'r mater yn anffurfiol yn y lle cyntaf.

Ble nad oes modd datrys yn anffurfiol, neu ble mae'r achwynydd yn dal yn anfodlon, rhaid i'r achwynydd gyflwyno'r gŵyn yn ysgrifenedig. Rhoddir cydnabyddiaeth bod y gŵyn wedi ei derbyn o fewn pum diwrnod gwaith. Bydd y Pennaeth yn gwneud trefniadau i gynnal ymchwiliad i'r mater. Efallai bydd yn penderfynu trefnu gwrandawriad bydd yn ofynnol i'r achwynydd a'r sawl y deir â'r gŵyn yn ei erbyn, ei fynychu. Bydd gan y ddwy ochr hawl i gael eu cynrychioli gan gyfaill neu gynrychiolydd o undeb lafur. Cynhelir y gwrandawriad o fewn pymtheg diwrnod gwaith o dderbyn y gŵyn ysgrifenedig a rhaid i'r ddwy ochr gyflwyno unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig y bwriedir ei chyflwyno i'r cyfarfod o leiaf bum diwrnod ysgol cyn dyddiad cynnal y gwrandawriad. Ni fydd y Pennaeth yn ystyried unrhyw ddogfennaeth a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth, efallai y bydd y Pennaeth yn cymryd un o'r penderfyniadau canlynol:-

- Nad oes sail i'r gŵyn.
- Y ffordd orau o ddelio â'r gŵyn yw trwy roi cyngor anffurfiol i un neu ragor o'r pleidiau.
- Dylid delio â'r mater yn unol â Gweithdrefnau Disgyblu'r ysgol.

Bydd achwynydd sy'n dal yn anfodlon ynghylch sut y deliwyd â'i gŵyn ef/hi yn cael ei gynghori y gall droi am gymorth trwy ddefnyddio Gweithdrefn Cwynion yr ysgol, os dymunir.

Ymchwilio i gwynion

Pan gyflwynir cŵyn o ba ffynhonnell bynnag, i'r Pennaeth, bydd yn gwneud trefniadau i ymchwiliad gael ei gynnal i'r mater gan Ddirprwy Bennaeth yr ysgol. Mae'r Llywodraethwyr o'r farn y dylid delio ag unrhyw benderfyniad, yn enwedig penderfyniad a all arwain at gymryd camau disgyblu yn erbyn aelod o'r staff, gan unigolyn heblaw'r sawl a gynhaliodd yr ymchwiliad, er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro rhwng y Pennaeth yn gweithredu fel barnwr a rheithgor. Mewn achos ble mae'r gŵyn yn erbyn y Pennaeth, cynhelir ymchwiliad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyntaf a ble mae'r gŵyn yn erbyn Cadeirydd y Llywodraethwyr, cynhelir ymchwiliad gan yr Is-Gadeirydd. Bydd cwynion yn erbyn y Corff Llywodraethol cyfan yn cael eu hanfon at yr Awdurdod Addysg Leol gan y Clerc.

Tynnu cwynion yn ôl.

Mewn achos ble cyflwynwyd cŵyn yn ysgrifenedig, os yw'r achwynydd yn penderfynu'r gŵyn yn ôl, yna rhaid tynnu'r gŵyn yn ôl yn ysgrifenedig hefyd.

Cadw Cofnodion

Cedwir cofnodion o'r holl gwynion ffurfiol am dair blynedd o ddyddiad eu derbyn. Bydd cofnodion cwynion anffurfiol yn cael eu dinistrio ar ddiwedd y flwyddyn ysgol y caed datrysiaid.

Monitro

Gall bydd y Llywodraethwyr yn gofyn i'r Pennaeth ac/neu Gadeirydd y Pwyllgor Cyntaf eu hysbysu bob yn hyn a hyn ynghylch faint o gwynion ysgrifenedig a dderbyniwyd, faint ohonynt y deliwyd â hwynt o fewn y graddfeydd amser a bennwyd, faint a gafodd eu datrys gan y Pennaeth, faint gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyntaf a faint o achosion a gafodd wrandawriad.

Ffurflen Gofnodi Cŵyn

Enw'r Disgybl:**Blwyddyn:**

Enw'r Achwynnydd (Os yn Wahanol i'r Uchod)

Dyddiad Derbyn:.....

Natur y gŵyn

Cam a gymerwyd

Arwyddwyd